**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir P. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sir P. Farley (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Sir: D. Blakebrough, L. Guppy, M. Hickman, D. Jones, M. Powell

M Fowler (Parent Governor Representative)
Y Cynghorydd Sir V. Smith

**MYNYCHWYR:**

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Nikki Wellington | Finance Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |
| Andrew Evans | Senior Management Accountant |
| David Barnes | Data and Information Systems Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir P. Clarke, R. Harris

K Plow (Association of School Governors)

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Datganodd y Cynghorydd Sir D. Blakebrough fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â pherfformiad ysgolion gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Trefynwy.

Datganodd y Cynghorydd Sir P. Farley fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau at Ysgol Gyfun Cas-gwent ac Ysgol Gynradd y Dell. Hefyd, mewn perthynas â Chynllun Busnes drafft y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) gan ei fod yn Llywodraethwr Awdurdod Addysg yn y ddwy ysgol ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y GCA.

Datganodd y Cynghorydd Sir L. Guppy fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad ar berfformiad ysgolion a Chynllun Busnes y GCA gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Rogiet ac Ysgol Gyfun Cil-y-coed.

Datganodd y Cynghorydd Sir D. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â pherfformiad a chyllidebau ysgolion oherwydd ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gymraeg Y Fenni ac Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucorney.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

Datganodd y Cynghorydd Sir P. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â Chynllun Busnes y GCA a Deilliannau Ysgolion Sir Fynwy yr Arfer Categoreiddio Cenedlaethol gan ei bod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaglan.

Datganodd y Cynghorydd Sir M. Powell fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chanlyniadau perfformiad ysgol gan ei bod yn llywodraethwr Ysgol Gyfun y Brenin Harri'r VIII.

Datganodd Mr. M. Fowler Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â Deilliannau Ysgolion Sir Fynwy yr Arfer Categoreiddio Cenedlaethol gan ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaglan.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 12fed Ionawr 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd yn amodol ar y gwelliant canlynol:

Cofnod 4, tudalen 3, y pwynt bwled cyntaf dan Craffu Aelodau – tynnu 'Mewn ymateb' o ddiwedd y frawddeg hon.

3. **Monitro Refeniw a Chyfalaf 2016/17 Datganiad Rhagolwg Alldro Cyfnod 3.**

**Cyd-destun**

Darparu gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgorau Dethol ar ddatganiad rhagolwg alldro'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 3 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol 9 mis ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

**Argymhellion a gynigiwyd i'r Cabinet:**

- Bod y Cabinet yn nodi maint rhagolwg y tanwariant refeniw gan ddefnyddio data cyfnod 3 o £79,000, gwelliant o £919,000 ar y sefyllfa flaenorol a gofnodwyd yng nghyfnod 2.

- Bod y Cabinet yn disgwyl i Brif Swyddogion barhau i adolygu'r lefelau o droswariant a thanwariant ac ailddyrannu cyllidebau i leihau maint y sefyllfaoedd digolledu sydd angen eu cofnodi ar gylchoedd chwarterol.

- Bod y Cabinet yn gwerthfawrogi maint y defnydd a ragfynegwyd o gronfeydd wrth gefn ysgolion, ei effaith ar lefelau rhagolwg alldro cronfeydd wth gefn a'r disgwyliad cysylltiedig y bydd chwech o ysgolion pellach mewn sefyllfa o ddiffyg erbyn diwedd 2016-17.

- Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf, y troswariannau a'r tanwariannau penodol, a chyn bwysiced, fod y Cabinet yn cydnabod y risg ynghlwm wrth orfod dibynnu ar ddefnydd o dderbyniadau cyfalaf ym mlwyddyn y gwerthiant a'r posibilrwydd i hyn gael pwysau refeniw sylweddol petai derbyniadau'n cael eu hoedi a'r angen i fenthyca dros dro.

- Bod y Cabinet yn cymeradwyo buddsoddiad ychwanegol o £30,000 i mewn i gyllideb gyfalaf Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn ymateb i'r galwadau a osodir ar y rhaglen

gyfredol, yn cael ei gyllido gan drosglwyddiad o Gynnal a Chadw Priffyrdd a Mynediad ar gyfer yr holl Gyllidebau.

- Bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnydd o £30,000 i gynllun cyswllt Ffordd Woodstock Way wnaed yn bosib drwy danwariant cyfatebol i gynllun gwella ardal arall (Y Fenni).

**Craffu Aelodau:**

- Dangosodd chwe ysgol sefyllfa o ddiffyg ar ddechrau 2016/17. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 12 ysgol erbyn diwedd 2016/17. Mae Swyddogion yn ymweld â'r ysgolion hyn gyda'r bwriad o gynhyrchu cynlluniau adferol. Fodd bynnag, nodwyd bod gan nifer o'r ysgolion hyn gyllidebau diffyg isel iawn a'u bod, felly, yn debygol o adfer y sefyllfa'n gyflym.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch cyllid Ôl-16, nodwyd yr anfonir yr arian drwodd i'r ysgolion drwy gyfrwng yr Awdurdod Lleol. Mae amryw o wahanol ddulliau y gellid eu cymhwyso i'r dosbarthiad hwnnw. Mae'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn gweithio gyda'r ysgolion i ddod o hyd i fethodoleg briodol sy'n seiliedig ar ddata disgyblion byw. Tanseiliwyd gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol i raddau gan y ffaith bod y swm gwirioneddol a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylid. Derbyniwyd gostyngiad o 8% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae gan yr Awdurdod gynnig gyda'i ysgolion y cymerir y dosbarthiad ar gyfraddau cyfartal y gostyngiad. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei adolygu. Os cymerir hyn ymlaen eleni, bydd yr Awdurdod yn sicrhau, yn y flwyddyn gyfamserol y bydd yn rhaid i'r holl ysgolion gytuno i fethodoleg gytûn, y glynir ati am y tair blynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid o 1.25% i ysgolion ar gyfer pob uned o ddysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir yn achos Sir Fynwy gan fod yr unedau dysgu ar gyfer pedair ysgol gyfun Sir Fynwy wedi lleihau o 0.1%.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch Maethu a chostau lleoliadau allanol (paragraff 3.1.9 o'r adroddiad), nodwyd bod cyllideb y Gwasanaethau Plant wedi bod yn anwadal iawn yn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â Maethu a llefydd allanol. Mae'r gyllideb ar hyn o bryd yn sefydlogi. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur anwadal y gwasanaeth hwn mae angen i Aelodau'r Pwyllgor Dethol fod yn ymwybodol y gallai'r gyllideb hon newid yn gyflym os â un neu ddau o blant i leoliadau allanol. Fodd bynnag, mae Strategaeth Gomisiynu'r Gwasanaethau Plant, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Dethol y flwyddyn ddiwethaf, yn bwrw gwreiddiau a'r canlyniad yw cadw plant allan o leoliadau allanol a chadw mwy ohonynt mewn lleoliadau maethu mewnol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch derbyn grantiau ad hoc gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) (paragraff 3.2.4 o'r adroddiad) a'r angen i'r arian hwn fod ar gael yn union gan Lywodraeth Cymru, nodwyd parthed y GCA, bod y pum awdurdod lleol gyda'i gilydd yn cyfrannu oddeutu £3.6M i'r GCA bob blwyddyn. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd y GCA yn dosbarthu gwerth £56M mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae cyfanswm yr arian ddaw drwy gyfrwng grantiau'n arwyddocaol iawn i ysgolion Sir Fynwy. Mae'r Grant Gwelliant Addysg (GGA), y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) a'r hyn oedd yn Her Cymru i ysgolion yn dod drwodd ac yn cael eu dynodi'n gynnar yn y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, y symiau ychwanegol o arian y mae gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd gostyngol drostynt ers y cwymp ariannol, dyma'r cyllid sy'n cael ei ddosbarthu ar ddiwedd y flwyddyn.

- Cronfeydd wrth gefn Ysgolion (Paragraff 3.2.3) – Bu gostyngiad sylweddol yn y cronfeydd wrth gefn ym meddiant ysgolion. Nodwyd bod her i gyrff llywodraethu ysgolion bod angen i ysgolion gael cyllideb gytbwys. Os â ysgolion i mewn i gyllideb ddiffyg yna sefydlir cynllun tair blynedd ariannol cadarn i sicrhau bod yr ysgolion hyn allan o gyllideb ddiffyg erbyn diwedd y cyfnod hwn. Nodwyd bod anwadalrwydd yn lefelau'r cronfeydd wrth gefn ym meddiant ysgolion gan y gofynnir i ysgolion ddal lefel lai o arian wrth gefn. Ni chaniateir i unrhyw ysgol gynllunio ar gyfer cyllideb ddiffyg.

- Parthed gwasanaethau a brynir i mewn, nodwyd mai penderfyniad y corff llywodraethu yw lle ac oddi wrth bwy y prynir gwasanaethau. Fodd bynnag, arweiniodd y berthynas glos a ffurfiwyd rhwng staff yr awdurdod lleol ac ysgolion dros y blynyddoedd at berthynas glos a chadarnhaol. Mae mechnïwr yr awdurdod lleol yn sicrhau y glynir yn briodol at brosesau. Mae modelau hybrid yn opsiwn yr edrychir arnynt yn ogystal. Mae'n rhaid i'r awdurdod edrych i weld a yw'n darparu gwasanaeth rhagorol. Ystyriwyd, ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, a allai adroddiad gael ei gyflwyno ynghylch perthynas yr Awdurdod a'i ysgolion gyda chyrff llywodraethu.

- Gwasanaethau Plant – Nodwyd parthed y rhagolwg alldro bod agwedd fawr o'r gorwariant yn ymwneud â'r defnydd parhaus o staff asiantaeth. Mae cynllun gweithlu'n cael ei gynhyrchu i ddynodi'r ffordd y mae'r Awdurdod yn bwriadu recriwtio gweithwyr cymdeithasol. Daeth tipyn o lwyddiant drwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â recriwtio staff. Bydd hyn yn arwain at gael gwared yn raddol â staff asiantaeth. Digwydd hyn dros y 12 i 18 mis nesaf Fodd bynnag, mae posibiliad i'r rhagolwg ar gyfer 2017/18 symud i ffwrdd o ddefnyddio rhai staff asiantaeth o Ebrill 2017. Nodwyd y bydd angen sylfaen gadarn cyn y gellir gwneud y newidiadau hyn.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

**<u>Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:</u>**

- Diolchodd i'r Swyddogion am gyflwyno'r adroddiad. .

- Mae monitro'r gyllideb yn effeithiol wedi digwydd.

- Nodwyd y pryderon a godwyd a byddent yn cael eu monitro'n barhaus gan y Pwyllgor Dethol.

Gwnaethom argymell, ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, fod y Pwyllgor Dethol yn derbyn adroddiad ynghylch y berthynas rhwng y Cyngor a'r ysgolion a hefyd rhwng yr ysgolion a'r cyrff llywodraethu.

4. **<u>Adroddiad Perfformiad Terfynol ar Gyfnodau Allweddol 4 a 5.</u>**

## <u>Cyd-destun</u>

Derbyn y data cyrhaeddiad addysgol diweddaraf gan ganiatáu i'r gwasanaeth gael ei ddwyn i gyfrif. Mae hyn yn cynnwys:

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

- Perfformiad disgyblion ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 4 a 5.
- Dadansoddiad, lle mae'n bosibl, o berfformiad ar draws yr holl gyfnodau allweddol ar gyfer y grwpiau canlynol:

  - Merched a Bechgyn.
  - Disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (PYDd).

**Materion Allweddol:**

- Mae'n dwyn ynghyd y negeseuon pennawd o nifer o ddadansoddiadau mwy manwl a gynhwysir fel atodiadau i'r adroddiad.
- Mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth gan alluogi aelodau i bori'n ddyfnach o ddata lefel yr awdurdod i ffigurau ar gyfer grwpiau dysgwyr penodol.
- Darperir cymariaethau o 2011/12, sef y flwyddyn academaidd cyn yr arolwg llawn diwethaf gan Estyn.
- Mae'n galluogi'r Pwyllgor Dethol i edrych y tu hwnt i'r mesurau hynny ar lefel uchel i rai o'r manylion a oedd oddi tano.

**Cyfnod Allweddol 4**

- Gwelodd Sir Fynwy gynnydd o 0.1 pwynt canran yn y dangosydd pennawd Cyfnod Allweddol 4 i 67.0% – roedd Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg, o gymharu â 66.9% yn 2015 a 56.3% yn 2012.
- Symudodd Sir Fynwy lawr i'r 3ydd safle o'r safle 1af yn rancio awdurdodau lleol Cymru ar gyfer Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg.

**Cyfnod Allweddol 5**

- Gwellodd perfformiad yng nghanran y disgyblion yn cyflawni Trothwy Lefel 3, gyda 99.1% yn cyflawni'r meincnod, cynnydd o'r 97.9% yn 2015.

**Craffu Aelodau:**

- Bwlch Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) – Yr hyn sy'n allweddol yw'r modd mae'r Awdurdod yn adnabod yr angen cynnar am y gefnogaeth sy'n ofynnol i ddisgyblion PYDd. Gan weithio gyda'r GCA mae bellach gynlluniau ymyrryd addas yn eu lle ar gyfer Saesneg a Mathemateg i'r holl ysgolion uwchradd.

- Nodwyd, mewn Saesneg, bod bechgyn yn tanberfformio, ac mae angen gwella hyn. Dylai'r newid yn y cwricwlwm sy'n arwain at fwy o gywirdeb technegol mewn iaith Saesneg, i'r gwrthwyneb i lenyddiaeth Saesneg, fod o gymorth i fechgyn. Y risg o gwmpas iaith Saesneg eleni yw ei fod yn gymhwyster newydd ac nad yw ysgolion wedi'i ddysgu o'r blaen.

- Hunan-arfarniad a gosod targedau - Roedd rhai o ysgolion Sir Fynwy yn nes at eu targedau nag ysgolion eraill. Mae gosod targedau'n broses ac rydym ni fel

Awdurdod yn gweithio'n glos gyda'n hysgolion o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Gwiriwyd targedau ac mae data lefel disgyblion wedi'u dadansoddi i sicrhau bod y targedau'n ddibynadwy.

- Nid ydym lle byddem yn dymuno bod parthed y canlyniadau a gyflawnwyd yr haf diwethaf. Mae'r gwaith a wneir eleni'n ein gosod yn y cyfeiriad cywir i fwrw'r 70%. Yr her fydd y cymwysterau newydd a gallai hyn gael effaith ar draws Cymru gyfan.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'i ysgolion. Mae ganddo berthynas glos gyda'i ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) – mae'r Awdurdod wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) i fwrw rhagddo â'r darn hwn o waith.

- Mae cyrsiau a hyfforddiant yn gynnig drwy gyfrwng y GCA ar gyfer athrawon ynghylch darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim (PYDd)..

- Y cynlluniau a gynhyrchir gan ysgolion ar y modd y gwariant eu Grant Amddifadedd Disgyblion – Mae'r ymgynghorydd heriau'n gweithio gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghylch y modd maent yn gwario'u harian ac a yw'r arian wedi gwneud gwahaniaeth.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch cyrsiau BTEC nodwyd bod y cymwysterau BTEC yn cyfrannu at y canlyniadau. Mae'n bwysig i fyfyrwyr gael cwricwlwm sy'n iawn ar eu cyfer hwy.

- Mae'r Awdurdod yn gweithio'n glos gydag ysgolion i wneud yn siŵr ei fod yn deall lle maent parthed eu tracio a chynnydd plant yn erbyn eu targedau.

- Mae'n bwysig bod cysondeb ar draws y pedair ysgol gyfun o fewn Sir Fynwy.

- Yn y blynyddoedd i ddod, gallai fod peth ansefydlogrwydd i'w ddisgwyl o ganlyniad i'r newidiadau mewn arholiadau. Ar gyfer yr holl ysgolion ar draws yr ardal, mae'r GCA wedi darparu peth o'r arian grant a'r cyllid er mwyn iddynt ymuno â sefydliad o gwmpas partneriaeth mewn rhagoriaeth.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Diolchodd i gynrychiolydd y GCA a'r Swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.

- Roedd rhai canlyniadau siomedig nad oeddent i'w cymharu â'r cyfartaledd Cymreig ond nodwyd bod gwelliannau'n cael eu gwneud.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

- Mae'n rhaid canolbwyntio ar gefnogi disgyblion gyda'r bwriad iddynt gyflawni pum cymhwyster TGAU.

- Disgwyl i welliannau gael eu cyflawni pan fydd y cwricwlwm newydd wedi ymwreiddio.

**5. <u>Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) 2017-2020 (Drafft ymgynghori).</u>**

**<u>Cyd-destun</u>**

Derbyniasom Gynllun Busnes y GCA De-ddwyrain Cymru 2017-2020. Mae'r cynllun yn gosod y blaenoriaethau, y rhaglenni a'r deilliannau i'w cyflawni gan y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ar ran Consortiwm De-ddwyrain Cymru. Mae'r ystyriaeth hon gan bartneriaid allweddol yn rhan o wead y cynllun.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

Mae'n ofynnol i Gonsortiwm De-ddwyrain Cymru gyflwyno i Lywodraeth Cymru gynllun busnes tair blynedd a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Dyma'r pedwerydd iteriad o'r cynllun a gyflwynwyd yn gyntaf yn 2013. Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu cyfnod 2017-2020.

Mae Cynllun Busnes y GCA De-ddwyrain Cymru yn amlinellu pedair blaenoriaeth. Gwella cyrhaeddiad yn gyffredinol ond culhau'r bwlch rhwng y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a'r rheiny nad ydynt yn gymwys; codi cyrhaeddiad mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Mae'r rhain yn flaenoriaethau craidd ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r holl weithgareddau a'r rhaglenni eraill nawr yn cefnogi cyrhaeddiad y deilliannau hyn.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (GCA) ar gyfer De-ddwyrain Cymru wedi paratoi'r Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2017-2020 i amlinellu'r rhaglen waith sy'n ofynnol i gyflawni deilliannau gwell i blant a phobl ifanc. Mae'r fersiwn hon yn adeiladu ar y Cynllun Busnes cyfredol ar gyfer y gwasanaeth (2016-2019) ond mae'n ystyried fframwaith polisi newydd Llywodraeth Cymru (LlC), yn arbennig:

- Y system Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion
- 'Cymwys am Oes 2' - y Strategaeth Genedlaethol er mwyn Gwella Addysg.

- 'Dyfodol Llwyddiannus' – adolygu cwricwlwm ac asesiad.
- 'Addysgu Athrawon Yfory' - yr adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

Mae'r rhaglenni gwaith wedi'u targedu'n glos at gyflawni gwelliant lle mae';r anghenion fwyaf. Nod y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (GCA) mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol yw:

- Gwella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu i sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn deilliannau i ddysgwyr (mewn llythrennedd / Cymraeg / Saesneg a rhifedd / mathemateg) o leiaf yn unol neu'n uwch na'r raddfa gynnydd yng Nghymru.
- Gwella graddfa'r gwelliant ar gyfer grwpiau o ddysgwyr ar draws y rhanbarth, yn enwedig y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a'r dysgwyr mwy galluog yng Nghyfnod 4.
- Gwella capasiti rhanbarthol i weithredu system sy'n gwella'i hun.

Mae ymgynghoriad cynhwysfawr gyda'r holl randdeiliaid a fydd yn arwain at gyhoeddi fersiwn derfynol y Cynllun Busnes o fewn y graddfeydd amser a gytunwyd yng Nghylch Cynllunio Busnes y GCA. Rhannwyd y fersiwn ddrafft derfynol gyda Chyfarwyddwr Addysg pob awdurdod lleol ac mae'n ystyried y camau gweithredu a'r cyflawniadau y gwnaed cais amdanynt.

Mae crynodeb cynhwysfawr o'r prif gamau gweithredu o fewn y Cynllun Busnes ac adran ar Fesurau Atebolrwydd. Yn ychwanegol, mae cynlluniau cyflenwi manwl ac adolygiadau manwl o gynnydd ar gyfer y Cynllun Busnes blaenorol.

Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu'r blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer rhanbarth y De-ddwyrain ac yn ychwanegol atodiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar y blaenoriaethau a'r rhaglenni ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Consortiwm, mae'r rhain wedi cael eu trafod gyda Chyfarwyddwyr ac Aelodau Cabinet cyn eu cyflwyno. Bydd y dogfennau hyn hefyd yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Cysylltir y Strategaeth Ranbarthol Mwy Abl â'r Strategaeth 14-19 a'r nod yw cael ysgolion cynradd i gymryd rhan. Caiff ysgolion cynradd eu herio wrth baratoi.

- Mae'r GCA wedi ail-alinio strwythur ei dimoedd yn fewnol i adlewyrchu model y cwricwlwm newydd. Gyda phob adolygiad o'r Cynllun Busnes bydd y GCA yn edrych ar ei ail-alinio'n fwy clos gyda'r cwricwlwm newydd unwaith y daw ar lein.

- Mae pob clwstwr o ysgolion yn y broses o lunio cynllun i weithio gyda £20,000 o fewn eu clwstwr i wario'r arian hwnnw ar feysydd y maent wedi'u dynodi o'u data. Bydd y GCA yn adolygu hyn a'i ddwyn rhagddo gyda'r bwriad o'i ddatblygu ymhellach.

- Ar gyfer rhai o ardaloedd clwstwr Sir Fynwy, mae'r Awdurdod yn edrych ar ddatblygu datrysiad o gwmpas rheolwyr busnes sy'n gweithio ar draws clystyrau gan ddwyn i mewn lefelau ychwanegol o gefnogaeth ac arbenigedd ond hefyd yn edrych ar ddatblygu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn seiliedig ar glystyrau. Hefyd, edrychir ar ddarparu trefniant clwstwr gogledd / de.

- Mae llesiant y plant yn allweddol a chaiff ei ddiogelu. Mae rhan o'r Cynllun Busnes yn cyfeirio at lesiant mewn addysg. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur

llesiant plenty. Gwireddir hyn orau drwy wrando a siarad â disgyblion unigol a gwirio eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod gofal drostynt.

- Mae cael y teulu i gyfranogi yn addysg a magwraeth y plentyn yn allweddol. Mae nifer o ysgolion Sir Fynwy eisoes yn gwneud hyn.
- Cedwir yr holl ddata sy'n cyfeirio at ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'n fwy anodd cadw cyfrif ar lesiant holistaidd disgyblion. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ymgymryd ag arolygon i ddeall pa mor ddiogel mae plant yn teimlo. Gosodwyd ymyriadau yn eu lle o fewn ysgolion i wneud disgyblion yn ymwybodol o beryglon E-fwlian drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r GIG i ddeall y lefelau o angen parthed iechyd meddwl plant. Felly, mae'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc ac ysgolion yn darparu mwy na charfan o ganlyniadau arholiad yn unig.

- Mae'r Prif Ymgynghorydd Heriau yn cydnabod y gwahanol anghenion y mae'u hangen ar ysgolion Sir Fynwy. Mae gan y GCA berthynas waith glos gyda'r Cyngor Sir a'i Swyddogion.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch y bygythiadau posib i'r Cynllun Busnes, nodwyd bod dau fater, sef, natur y cwricwlwm a'r newidiadau i ddod ac ansefydlogrwydd a natur anwadal y cyllid grant.

Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Ymgynghorydd Heriau am gyflwyno Cynllun Busnes y GCA..

- Mae'n gynllun busnes clir a chynhwysfawr a gaiff ei fonitro'n flynyddol gan y Pwyllgor Dethol.

6. **Canlyniadau Ysgolion Sir Fynwy yr Ymarfer Categoreiddio Cenedlaethol.**

**Cyd-destun**

Cynghori'r Pwyllgor Dethol o ganlyniadau ymarfer categoreiddio cenedlaethol blynyddol.

**Materion Allweddol:**

Mae categoreiddio ysgolion yn faromedr defnyddiol blynyddol o'r cynnydd mae ysgolion Sir Fynwy'n ei wneud mewn dau faes allweddol, eu perfformiad academaidd a'u gallu i wella.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

**Craffu Aelodau:**

- Mynegwyd pryder ynghylch y modd y gwelir yr Ymarfer Categoreiddio Cenedlaethol o safbwynt y cyhoedd ac fel y gall data disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) effeithio ar gategoreiddio ysgol. Mae'r GCA yn cydnabod natur anarferol Sir Fynwy sydd â lefelau isel o ddisgyblion PYDd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, nodwyd bod y data a archwiliwyd gan y GCA flwyddyn ar ôl blwyddyn wedi dangos bod y bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion heb dderbyn Prydau Ysgol am Ddim yn amlwg.

- Nodwyd, ar gyfer ysgolion cynradd, nid yw data PYDd yn ystyriaeth parthed y mesurau. Mae mewn ysgolion uwchradd yn unig.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch Ysgolion uwchradd 'Gwyrdd', dywedodd y Prif Ymgynghorydd Heriau mai 'Gwyrdd' yw pan nad oes angen mwy na phedwar diwrnod yn unig o gymorth gan y GCA. Mae ysgol â statws 'Gwyrdd' yn wahanol iawn o fod yn ysgol mewn safonau Grŵp 1 ar Gam Un. Bydd ar ysgol mewn safonau Grŵp 1 ar Gam Un angen mwy na phedwar diwrnod o gymorth gan y GCA.

- Mynegwyd pryder nad oedd canfyddiad y cyhoedd o'r system hon yn hollol ddealladwy a gallai hyn roi camargraff o'r modd mae ysgol yn gwirioneddol berfformio o ganlyniad i statws lliw.

**Casgliad y Pwyllgor**

Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Diolchodd i'r Prif Ymgynghorydd Heriau am gyflwyno'r adroddiad.

- Mae'n galonogol gweld nad oes un ysgol yn Sir Fynwy yn y categori 'Coch'.

- Mae'r Pwyllgor Dethol yn cydnabod pwysigrwydd y cymorth yn gysylltiedig â chodio lliwiau a ddarperir gan y GCA. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd pellach i hyn.

- Roedd angen cydnabod bod y pryderon a godwyd gan y cyhoedd mewn perthynas â chodio lliwiau a'r modd y canfyddir hyn yn annhebygol o leihau.

- Bydd y Pwyllgor Dethol yn monitro'r Ymarfer Categoreiddio Cenedlaethol yn flynyddol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2017 at 2.00 pm**

7. **Rhestr o gamau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol.**

Derbyniasom a nodwyd gennym y rhestr o gamau gweithredu a gafodd eu cwblhau yn codi o gyfarfod y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 12$^{tfed}$ Ionawr 2017.

8. **Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Penderfynasom dderbyn Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Wrth wneud hynny nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynhelir cyfarfod Pwyllgor ar y Cyd ar gyfer y pedwar pwyllgor dethol ar 27$^{ain}$ Chwefror 2017 am 2.00pm i archwilio'r achos busnes ar gyfer y Model Cyflawni Gwasanaeth Amgen ac amcanion Llesiant y Cyngor.  .

- Daw cyfarfod cyffredin nesaf y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc, a amserlennir i'w gynnal ar ddydd Iau 23$^{ain}$ Mawrth 2017 yn gyfarfod Pwyllgor Dethol ar y Cyd gyda'r Pwyllgor Dethol Oedolion. Bydd y Pwyllgor hwn yn ystyried y Strategaeth Gofalwyr Ifanc gyntaf yng Nghymru lle gwahoddir rhai gofalwyr ifanc i'r cyfarfod. Caiff adroddiad ar Amddiffyn hefyd ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

9. **Cyngor a Blaengynllun Busnes y Cabinet.**

Penderfynasom dderbyn Blaengynllun Gwaith Busnes y Cyngor a'r Cabinet gan nodi'i gynnwys.

10. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Pwyllgor ar y cyd gyda'r Pwyllgor Dethol Oedolion fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar ddydd Iau 23$^{ain}$ Mawrth 2017 am 2.00pm.

**The meeting ended at 4.30 pm**